



Comisiwn y Gyfraith

Diwygio'r gyfraith

# Apeliadau Troseddol

## Crynodeb o'r Papur Ymgynghori

# Y Crynodeb

Bwriad y crynodeb hwn yw rhoi trosolwg o’r materion allweddol rydym yn eu trafod yn ein papur ymgynghori Apeliadau Troseddol. Mae’n egluro beth yw pwrpas y prosiect a’r materion rydym yn rhoi sylw iddynt.

Yn y papur ymgynghori, rydym yn nodi nifer o gwestiynau ymgynghori rydym yn gofyn am ymatebion iddynt. Rydym yn cyfeirio at y cwestiynau ymgynghori hyn drwy gydol y crynodeb hwn pan fyddwn yn gofyn 29 o “gwestiynau ymgynghori cryno”. Mae rhai cwestiynau’n nodi cynigion dros dro ar gyfer diwygio’r gyfraith ac yn gofyn a ydych chi’n cytuno ai peidio. Mae eraill yn gwestiynau agored lle byddwn yn gofyn am eich barn. Dim ond ar ôl i ni dderbyn ac ystyried yr holl ymatebion i’r papur ymgynghori y byddwn yn dod i’n casgliadau terfynol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio.

Ein nod yw sicrhau bod unrhyw un yn gallu darllen y crynodeb hwn ac ymgysylltu â’r materion allweddol rydym yn rhoi sylw iddynt. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i aelodau o’r cyhoedd sydd â llai o ddiddordeb mewn ymgysylltu â’r materion mwy manwl yn y papur ymgynghori llawn.

Os oes gan unigolion neu sefydliadau ddiddordeb neu arbenigedd penodol mewn unrhyw un neu bob un o’r meysydd rydym yn eu harchwilio, yna byddem yn eu hannog i ddarllen y papur ymgynghori llawn. Mae’n cynnwys trafodaeth fanylach ar y materion.



| | |
|---|---|
| **Pwy ydym ni** | Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth ynglŷn â diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| **Am beth mae'n sôn?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad o'r gyfraith sy'n llywodraethu apeliadau mewn achosion troseddol ac yn ystyried yr angen am ddiwygio gyda golwg ar sicrhau bod gan y llysoedd bwerau sy'n galluogi'r broses effeithiol, effeithlon a phriodol o ddatrys apeliadau. Bydd yr adolygiad yn rhoi sylw arbennig i anghysondebau, ansicrwydd a bylchau yn y gyfraith. |
| **Pam rydym yn ymgynghori?** | Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen diwygio'r gyfraith, a sut. Mae ymgynghori yn elfen hollbwysig o'n gwaith. Rydym am i unrhyw argymhellion a wnawn yn y pen draw gael sylfaen dystiolaeth mor gryf â phosibl. |
| **Gan bwy rydym yn dymuno clywed?** | Hoffem glywed gan gynifer o randdeiliaid â phosibl sydd â phrofiad o'r broses apeliadau troseddol, gan gynnwys gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, barnwyr, academyddion ac ymchwilwyr, a sefydliadau sy'n cynnig cymorth i bobl sydd, neu sy'n honni eu bod, wedi dioddef camweinyddiad cyfiawnder.<br><br>Rydym yn awyddus hefyd i gael ymatebion gan bobl sydd wedi ceisio apelio, neu sydd wrthi'n apelio ar hyn o bryd, yn erbyn eu heuogfarn neu eu dedfryd. Fodd bynnag, ni allwn gymryd rhan mewn achosion neu apeliadau unigol. |
| **Ble allaf ddarllen y papur ymgynghori?** | Mae'r papur ymgynghori llawn ar gael ar ein gwefan, yn ogystal â fersiynau Cymraeg, hawdd eu deall, a sain o'r crynodeb:<br><br>www.lawcom.gov.uk/project/criminal-appeals/ |

**Beth yw'r dyddiad cau?**

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 27 Mehefin 2025.

**Sut i ymateb?**

Os ydych chi'n ymateb i'r papur ymgynghori llawn, byddem yn gwerthfawrogi ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael yn:
https://consult.justice.gov.uk/law-commission/criminalappeals

Os ydych chi'n ymateb i'r cwestiynau yn y crynodeb hwn, byddem yn gwerthfawrogi ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael yn:
https://consult.justice.gov.uk/law-commission/criminalappealssummary/

Fel arall, gallwch ymateb:

drwy e-bost at criminal.appeals@lawcommission.gov.uk

drwy'r post at:

**Criminal Appeals Team, Law Commission,**
**1st Floor, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG**

(Os byddwch chi'n anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai'n fuddiol pe gallech eu hanfon yn electronig hefyd os oes modd i chi wneud hynny.)

Rydym yn fodlon darparu ffurflen wedi'i hargraffu er mwyn gallu cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau yn y crynodeb hwn i'r rhai nad ydynt yn gallu ymateb yn electronig. Gofynnwch am "ffurflen ymateb i apeliadau" gan ddefnyddio'r cyfeiriad neu'r cyfeiriad e-bost uchod.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

Ar ôl dadansoddi pob ymateb, byddwn yn gwneud argymhellion dros ddiwygio, a byddwn yn cyhoeddi'r rheini mewn adroddiad. Y Llywodraeth fydd yn penderfynu a fydd yn gweithredu'r argymhellion.

I gael rhagor o wybodaeth am y modd y mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal ei ymgynghoriadau, a'n polisi ar gyfrinachedd a sicrhau bod ymatebion ymgyngoreion yn aros yn anhysbys, ewch i'r papur ymgynghoriad.

# Cyflwyniad

**Gall y sawl sydd wedi'i gael yn euog o drosedd geisio herio naill ai ei euogfarn neu ei ddedfryd drwy apêl.**

**Mae gan apeliadau swyddogaeth bwysig i unigolion, boed hynny i gywiro camweinyddiad cyfiawnder, fel euogfarn rhywun sy'n ddieuog, neu gywiro gwall cyfreithiol, fel rhoi dedfryd fwy llym na'r hyn a ganiateir yn ôl y gyfraith.**

**Fodd bynnag, maent hefyd yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus pwysig, wrth sicrhau bod cyfraith trosedd yn cael ei dehongli a'i chymhwyso'n gyson ac yn rhagweladwy, ac wrth ddatblygu'r gyfraith gwlad.**

Ym mis Gorffennaf 2022, gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o'r gyfraith sy'n ymwneud ag apeliadau troseddol. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y prosiect hwn yn mynnu ein bod yn ystyried yr angen i ddiwygio'r gyfraith, gyda'r bwriad o sicrhau bod gan lysoedd bwerau sy'n galluogi datrys apeliadau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn briodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried a oes tystiolaeth bod y profion cyfreithiol a ddefnyddir yn y Llys Apêl a gan y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yn llesteirio'r broses o gywiro camweinyddiad cyfiawnder, ac a yw'r trefniadau presennol ar gyfer apeliadau o'r llys ynadon yn ddefnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r llys ac amser barnwrol. Ddiwedd 2024, cytunodd Comisiwn y Gyfraith a'r Llywodraeth y byddem hefyd yn ystyried y gyfraith sy'n rheoli iawndal ar gyfer dioddefwyr camweinyddiad cyfiawnder.

Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom gyhoeddi Papur Materion â 167 o dudalennau, lle roeddem wedi gofyn 18 cwestiwn i gwmpasu meysydd ar gyfer diwygio posibl mewn apeliadau troseddol a safbwyntiau amodol ymatebwyr arnynt. Cawsom dros 150 o ymatebion i'r papur, gan gynnwys gan garcharorion sy'n bwrw dedfryd, cyrff y wladwriaeth fel Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), cyfreithwyr unigol, academyddion ac ymgyrchwyr, cyrff proffesiynol fel Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar a Chymdeithas y Cyfreithwyr Troseddau, yn ogystal ag elusennau a grwpiau fel APPEAL, y Centre for Women's Justice a JENGbA (Joint Enterprise Not Guilty by Association). Mae'r ymatebion wedi cyfrannu'n uniongyrchol at lunio ein papur ymgynghori.



# Cefndir

Mae dau wahaniaeth yn allweddol i ddeall y system apeliadau troseddol modern.

Yn gyntaf, mae'r gweithdrefnau ar gyfer apeliadau'n adlewyrchu'r rhaniad rhwng achosion "diannod", mewn achosion llai difrifol neu lai cymhleth, a dreialwyd gan ynadon neu farnwyr rhanbarth, a threial "trwy dditiad" gerbron barnwr a rheithgor yn Llys y Goron. Gall troseddau fod yn rhai "diannod yn unig", yn "dditiadwy yn unig", neu'n droseddau "neillffordd". Gellir erlyn troseddau neillffordd naill ai mewn achosion diannod neu drwy dditiad, ond mae gan y diffynnydd yr hawl i ddewis cael ei erlyn gan reithgor yn Llys y Goron.

Yn ail, yn hanesyddol, mae'r system apeliadau wedi ffafrio apeliadau ar bwyntiau cyfreithiol yn hytrach nag apeliadau ar bwyntiau ffeithiol (mewn geiriau eraill, dadleuon bod y gyfraith wedi'i chymhwyso'n anghywir neu nad oedd yn gwneud yr ymddygiad dan sylw yn droseddol o'i gymharu â dadleuon bod tyst yn anghywir neu fod tystiolaeth wedi'i chamddeall). Mae hyn oherwydd yr egwyddor mai proses treial yw'r mecanwaith gorau ar gyfer sefydlu ffeithiau, a bod apeliadau yn bennaf ar gyfer adolygu achos, yn hytrach nag ar gyfer ail-wrandawiad.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024, cafwyd 1,096,074 o bobl yn euog mewn llysoedd ynadon a 53,537 yn Llys y Goron.[1] Dim ond lleiafrif bach o euogfarnau a'r dedfrydau sy'n eu dilyn fydd yn cael eu herio neu'n destun apelio yn eu herbyn.

Gellir dwyn apeliadau yn erbyn euogfarnau, dedfrydau neu'r ddau. Mae apeliadau llwyddiannus yn erbyn euogfarn yn arwain at euogfarn yn cael ei "diddymu" (hynny yw, mae'r apelydd, sef y sawl wnaeth ddwyn yr apêl, yn ei gael yn ddieuog o'r drosedd). Mewn rhai amgylchiadau, gall y llys orchymyn ail dreial neu gyfnewid euogfarn am drosedd lai. Gall apeliadau llwyddiannus yn erbyn dedfryd arwain at y llys yn newid dedfryd ar sail camgymeriadau yn y ddedfryd wreiddiol neu ffactorau sydd wedi dod i'r amlwg wedyn.


Yn gyffredinol, gellir apelio yn erbyn achosion llys ynadon i Lys y Goron neu (ar bwynt cyfreithiol) i'r Uchel Lys, ac achosion Llys y Goron i Adran Droseddol y Llys Apêl . Gellir apelio ymhellach i'r Goruchaf Lys yn erbyn apeliadau i'r Uchel Lys a'r Adran Droseddol y Llys Apêl ar bwynt cyfreithiol o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol. Mae cyfyngiadau amser llym ar gyfer dwyn apeliadau, ond gellir caniatáu estyniadau, ac mae pob apêl ac eithrio apeliadau mewn amser i Lys y Goron yn gofyn am ganiatâd cyn y gall y llys apêl ystyried yr apêl.

Y brif ddeddfwriaeth sy'n rheoli apeliadau troseddol yw Deddf Llysoedd Ynadon 1980 (ar gyfer apeliadau o lysoedd ynadon), Deddfau Apeliadau Troseddol 1968 a 1995 (ar gyfer apeliadau i'r Adran Droseddol y Llys Apêl), a Deddf Uwchlysoedd 1981 (ar gyfer y ddau).

*** Nid yw'r diagram hwn yn gynhwysfawr ac nid yw'n sôn am ofynion ar gyfer caniatâd nac estyniadau amser. Gellir rhoi rhai troseddau diannod yn unig ar brawf gyda rhai ditiadwy yn Llys y Goron, ond bydd apeliadau yn erbyn y troseddau hyn yn mynd i Adran Droseddol y Llys Apêl. Ar wahân, os ceir person yn euog mewn llys ynadon, gellir ei draddodi (anfon) i'w ddedfrydu gan farnwr yn Llys y Goron; dan yr amgylchiadau hynny, bydd apêl yn erbyn euogfarn yn mynd i Lys y Goron ond bydd apêl yn erbyn dedfryd yn mynd i'r Adran Droseddol y Llys Apêl.**

1 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ystadegau Chwarterol Cyfiawnder Troseddol: Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024.

# Llwybrau apelio: diffynyddion yn apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd*



Yn hanesyddol, prif sbardun diwygio apeliadau troseddol fu pryder ynghylch camweinyddiad cyfiawnder ac anallu canfyddedig y system cyfiawnder troseddol i'w hosgoi neu fynd i'r afael â nhw'n ddigonol. Roedd y Comisiwn Brenhinol ar Gyfiawnder Troseddol yn dilyn y dicter ynghylch y degawdau a gymerodd i wrthdroi euogfarnau anghyfiawn Pedwar Guildford, Chwech Birmingham ac eraill. Arweiniodd at Ddeddf Apêl Droseddol 1995, a greodd y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol, corff a sefydlwyd yn bennaf i ail-archwilio a chyfeirio achosion a apeliwyd yn aflwyddiannus yn ôl i'r llys apêl perthnasol.

Yn gyffredinol, mae'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol a'r system apelio wedi cael eu beirniadu dros y blynyddoedd diwethaf, drwy adroddiadau gan Bwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin yn 2015 a'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gamweinyddiadau Cyfiawnder yn 2021. Mynegwyd pryder cyhoeddus hefyd yn dilyn euogfarnau anghyfiawn is-bostfeistri a erlynwyd gan Swyddfa'r Post, a methiannau awdurdodau cyhoeddus ynghylch achos Andrew Malkinson, a dreuliodd 17 mlynedd yn y carchar yn dilyn ei euogfarn anghyfiawn am dreisio.

### Sgandal Horizon Swyddfa'r Post

Rhwng 1999 a 2015, cafodd cannoedd o is-bostfeistri Swyddfa'r Post a gweithwyr eraill eu herlyn am ddwyn, twyll, ffug gyfrifyddu a throseddau anonestrwydd eraill, yn seiliedig ar ddiffygion a ganfuwyd gan feddalwedd cyfrifyddu Horizon.

Yn 2009, dywedodd cylchgrawn *Computer Weekly* bod honiadau bod Swyddfa'r Post wedi methu â chydnabod problem bosibl gyda Thechnoleg Gwybodaeth. Yn dilyn hyn, roedd Alan Bates wedi sefydlu'r Gynghrair Cyfiawnder i Is-bostfeistri. Ni chafodd ei erlyn oherwydd diffygion Horizon ond terfynwyd ei gontract ym mis Tachwedd 2003 yng nghyd-destun y rhain.

Roedd 555 o is-bostfeistri wedi erlyn Swyddfa'r Post yn achos *Bates v Post Office Ltd*. Dyfarnwyd bod contractau Swyddfa'r Post â'r is-bostfeistri wedi bod yn annheg a bod Horizon yn cynnwys chwilod, gwallau a diffygion.

Sefydlodd y Llywodraeth Ymchwiliad TG Horizon Swyddfa'r Post yn 2020 i ymchwilio i weithrediad a methiannau system TG Horizon yn Swyddfa'r Post.

Yn y cyfamser, heriodd is-bostfeistri (neu eu teuluoedd, i'r rhai a oedd wedi marw) eu heuogfarnau drwy'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol ac apeliadau rheolaidd, gan ddechrau gyda'r 39 apelydd o 42 yn *Hamilton v Post Office Ltd* y cafodd eu heuogfarnau eu dileu gan yr Adran Droseddol y Llys Apêl yn 2021.

Fodd bynnag, arweiniodd dicter eang ymysg y cyhoedd at basio Deddf Troseddau Swyddfa'r Post (System Horizon) 2024 ar 24 Mai 2024, a oedd, bron yn ddigynsail, yn diddymu euogfarnau cannoedd yn rhagor o is-bostfeistri a oedd yn bodloni meini prawf penodol.

## Egwyddorion

Mae nifer o egwyddorion craidd, rhai'n gyffredin i'r system cyfiawnder troseddol gyfan, eraill sy'n unigryw i apeliadau, sy'n llywio apeliadau troseddol, diwygio a'n papur ymgynghori. Bydd bron pob penderfyniad a rheol cyfraith sy'n ymwneud ag apeliadau yn golygu cydbwyso gwahanol egwyddorion, nad ydynt yn aml yn pwyntio at yr un cyfeiriad.

Mae rhyddfarnu'r dieuog a chollfarnu'r euog yn brif nodau'r system cyfiawnder troseddol. Er bod euogfarn anghyfiawn y sawl sy'n ddieuog yn cael ei gydnabod fel camweinyddiad cyfiawnder, gall hefyd fod yn gamweinyddiad cyfiawnder os na fydd pobl sy'n cyflawni troseddau yn cael eu cosbi ac na fydd dioddefwyr yn cael eu diogelu. Mae llawer o agweddau ar achos troseddol yn adlewyrchu'r egwyddor a dderbynnir yn gyffredinol ei bod yn well rhyddfarnu'r euog na pheryglu cael rhywun dieuog yn euog.

Gall yr egwyddorion hyn wrthdaro â'r angen am derfynoldeb mewn achosion cyfreithiol: dylai dioddefwyr, y cyhoedd a'r bobl a gafwyd yn euog eu hunain fod â rhywfaint o sicrwydd bod achosion troseddol penodol yn cael eu cwblhau ac na fyddant yn cael eu hailystyried. Serch hynny, cydnabyddir yn gyffredinol ei bod yn bwysicach na ddylai rhywun dieuog barhau i fod wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd nad oedd wedi'i gyflawni, hyd yn oed os daw'r seiliau dros gamweithredu'r euogfarn i'r amlwg flynyddoedd neu ddegawdau ar ôl yr euogfarn.

O dan erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae gan bawb yr hawl i dreial teg, ac o dan y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol , mae gan bob unigolyn a gafwyd yn euog yr hawl i gael adolygiad o'u heuogfarn a/neu eu dedfryd gan gorff uwch. Mae'r rhain yn ategu egwyddorion tegwch ac uniondeb y system gyfreithiol (ymhlith pethau eraill o ran gallu cywiro ei gamweddau) mewn cyfraith gyffredin. Yn nhreialon Llys y Goron, mae goruchafiaeth y rheithgor a pharch y llysoedd at ei euogfarnau hefyd wedi hen ennill eu plwyf mewn cyfraith gyffredin.

Mae rhai rhannau o'r system apeliadau troseddol yn adlewyrchu'r egwyddor na ddylai unigolyn fod mewn perygl o gael mwy o gosb o ganlyniad i gyflwyno apêl (yr egwyddor "dim mwy o gosb"). Glynir wrth yr egwyddor hon mewn rhai rhannau o'r system apeliadau troseddol, ond nid mewn rhannau eraill. Os nad yw, gallai'r posibilrwydd o ddedfryd uwch atal apeliadau teilwng ac atal mynediad at gyfiawnder.

**Cwestiwn Cryno 1:**

Ydych chi'n cytuno mai egwyddorion perthnasol y system apeliadau troseddol yw:

1. rhyddfarnu'r dieuog;
2. collfarnu'r euog;
3. tegwch;
4. cydnabod rôl y rheithgor mewn treialon ar dditiad;
5. cynnal uniondeb y system cyfiawnder troseddol;
6. sicrhau mynediad at gyfiawnder (gan gynnwys yr egwyddor "dim mwy o gosb", ac ystyried anghenion grwpiau penodol); a
7. terfynoldeb?

**Cwestiwn Cryno 2:**

Ydych chi'n cytuno, mewn egwyddor, na ddylai unigolyn fod mewn perygl o gael ei ddedfryd wedi'i chynyddu o ganlyniad i'w ymgais i apelio yn erbyn ei euogfarn neu ei ddedfryd?

## Euogfarn anghyfiawn Andrew Malkinson

Ar 19 Gorffennaf 2003, cafodd menyw ei thagu i'r pwynt o fod yn anymwybodol, ei niweidio'n ddifrifol a'i threisio yn Salford.

Arestiwyd Andrew Malkinson gan Heddlu Manceinion Fwyaf ar 2 Awst 2003 oherwydd y tybiwyd bod tebygrwydd rhyngddo ef a disgrifiad o'r ymosodwr. Fe wnaeth y dioddefwr ei ddewis mewn parêd adnabod.

Cafodd ei gyhuddo o ymgais i lofruddio, treisio a cheisio tagu, ac roedd yr achos yn dibynnu'n drwm ar dystiolaeth adnabod y dioddefwr, a hefyd dau dyst a ddywedodd fod Mr Malkinson gerllaw ar adeg y trosedd (roedd gan y ddau ohonynt euogfarnau am anonestrwydd). Roedd achos yr amddiffyniad yn un o gamadnabod. Cafwyd Mr Malkinson yn euog o ymgais i dagu a dau achos o dreisio ar 10 Chwefror 2004 a chafodd ei ddedfrydu i garchar am oes gyda chyfnod sylfaenol o chwe blynedd a 125 diwrnod ar 30 Mawrth 2004.

Apeliodd Mr Malkinson yn erbyn ei euogfarnau, ond gwrthodwyd ei apêl yn 2006. Yn 2007, roedd prawf DNA o grys y dioddefwr wedi canfod DNA mewn lleoliad a oedd yn benodol i'r trosedd, nad oedd wedi dod gan Mr Malkinson na chariad y dioddefwr. Gwnaeth Mr Malkinson gais i'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol i gyfeirio ei achos yn 2009. Gwrthododd ei gais yn 2012, ac ail gais yn 2020.

Ni chafodd Mr Malkinson ei ryddhau o'r carchar tan fis Rhagfyr 2020, ar ôl 17 mlynedd dan glo. Yn dilyn trydydd cais, cyfeiriodd y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol euogfarnau Mr Malkinson i Adran Droseddol y Llys Apêl, a'u diddymodd ar 23 Gorffennaf 2023. Yn ogystal â'r dystiolaeth DNA, penderfynodd y Llys fod yr euogfarnau yn anniogel ar sail y methiant i ddatgelu llun a oedd yn tanseilio adnabyddiaeth y dioddefwr o Mr Malkinson ac euogfarnau blaenorol y llygad-dystion tybiedig.

Comisiynodd y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol adolygiad o'r ffordd yr ymdriniwyd â'r achos gan Chris Henley CB, a oedd yn feirniadol iawn o fethiant mynych y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol i nodi perthnasedd y dystiolaeth DNA newydd. Mae ymchwiliad, a orchmynnwyd gan y Llywodraeth, gan Ei Hanrhydedd y Barnwr Sarah Munro, sy'n archwilio gweithredoedd y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol, Heddlu Manceinion Fwyaf a'r erlyniad, yn parhau.

Tynnodd rhyddfarn Mr Malkinson sylw'r cyhoedd hefyd at y cyfyngiadau ar iawndal i unigolyn sy'n dioddef camweinyddiad cyfiawnder.

# Apeliadau'r sawl a gafwyd yn euog i'r Adran Droseddol y Llys Apêl

Rhaid i'r sawl a geir yn euog neu a ddedfrydwyd yn Llys y Goron wneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn ei euogfarn a/neu ei ddedfryd i'r Adran Droseddol y Llys Apêl cyn penderfynu ar yr apêl. (Gall barnwr y treial neu'r barnwr sy'n dedfrydu ardystio bod achos yn addas ar gyfer apêl, ond anaml y gwneir hyn.) Fel arfer, bydd ceisiadau am ganiatâd yn cael eu penderfynu gan un barnwr o Adran Droseddol y Llys Apêl (barnwr o'r Uchel Lys fel arfer): y prawf yw a yw'r apêl yn "un y gellir ei dadlau". Os rhoddir caniatâd, anfonir yr apêl i'w phenderfynu gan y "llys llawn" (gweler isod).

Os nad yw'n gwneud cais am ganiatâd o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad y mae'n dymuno ei herio, rhaid i'r sawl a gafwyd yn euog wneud cais am estyniad amser gan Adran Droseddol y Llys Apêl. Mae hyn yn golygu, er mwyn gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn euogfarn, bod yn rhaid i'r sawl a gafwyd yn euog wneud cais o fewn 28 diwrnod i osgoi'r angen am estyniad amser, hyd yn oed os nad yw wedi'i ddedfrydu eto. Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o geisiadau am estyniadau amser gan un barnwr.

Gall y barnwr unigol neu'r Cofrestrydd Apeliadau Troseddol hefyd gyfeirio cais i'r llys llawn i wneud penderfyniad ar estyniad a/neu ganiatâd, a wneir weithiau pan geisir estyniad mawr o amser, pan fo rhywun yn herio dedfryd fer o garchar ac felly efallai y bydd angen penderfyniad cyflymach neu mewn achosion cymhleth.

Y llys llawn fydd yn penderfynu'n derfynol a ddylid caniatáu'r apêl ai peidio. Gall y sawl y gwrthodir estyniad amser a/neu ganiatâd iddo gan y barnwr unigol adnewyddu ei gais/ceisiadau i'r llys llawn, a fydd angen penderfynu a ddylid caniatáu estyniad ac yna a ddylid rhoi caniatâd cyn penderfynu ar yr apêl.

Mae "llys llawn" mewn unrhyw gais am euogfarn neu apêl yn cynnwys o leiaf dri barnwr, ac o leiaf ddau mewn unrhyw gais am ddedfryd neu apêl. Nid yw apeliadau fel arfer yn cynnwys ail-wrando tystiolaeth neu ail-ddedfrydu troseddwyr. Fodd bynnag, gall y llys llawn dderbyn tystiolaeth (er enghraifft, datganiad tyst neu dystiolaeth arbenigol) nas derbyniwyd yn yr achos gwreiddiol os yw'n credu ei fod yn "angenrheidiol neu'n fanteisiol er budd cyfiawnder".

Os derbynnir tystiolaeth "newydd" gallai'r llys llawn ofyn pa effaith y gallai fod wedi'i chael neu y byddai wedi'i chael ar y rheithgor pe bai wedi'i chlywed. O ran apeliadau yn erbyn dedfryd, gallai tystiolaeth newydd arwain y llys i wyro oddi wrth ei drefn arferol o ystyried a oedd y ddedfryd yn gywir ar yr adeg y'i gwnaed.

Bydd y llys llawn yn caniatáu apêl yn erbyn euogfarn os yw'n credu bod yr euogfarn yn "anniogel". Yn rhannol oherwydd bod y llys yn ystyried "diogelwch" ac nid euog neu ddieuog, gall orchymyn ail dreial ar unrhyw droseddau y gallai'r rheithgor fod wedi dyfarnu'r apelydd yn euog ohonynt ar y ditiad. Mewn rhai amgylchiadau, gall y llys gyfnewid euogfarn am drosedd arall yn lle'r trosedd y cafwyd yr apelydd yn euog ohono. Os dedfrydwyd unigolyn ar ddau achos neu fwy ac nad yw'r llys ond yn diddymu rhai ohonynt, gall ail-ddedfrydu ar unrhyw achos sy'n weddill.

Bydd y llys llawn yn caniatáu apelio yn erbyn dedfryd os yw'n meddwl bod dedfryd "heb ei chyfiawnhau gan y gyfraith", "yn amlwg yn ormodol" neu'n "anghywir mewn

egwyddor". Os yw'n credu y dylai unigolyn gael ei ddedfrydu'n wahanol, caiff ddiddymu unrhyw ddedfryd o'r fath a rhoi un y mae gan y llys gwreiddiol y pŵer i'w gwneud yn ei lle, ar yr amod nad ymdrinnir yn fwy llym â'r person, gan gymryd ei achos yn ei gyfanrwydd, wrth apelio na'r llys isod.

Gall apêl a benderfynwyd (ond nid cais am ganiatâd) gael ei apelio ymhellach gan naill ai'r apelydd neu'r erlyniad i'r Goruchaf Lys ar sail pwynt cyfreithiol o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol.

Dim ond un apêl yn erbyn euogfarn neu ddedfryd y mae'n bosibl ei dwyn. Fodd bynnag, gall y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol gyfeirio euogfarn neu ddedfryd sydd eisoes wedi'i apelio i'r Adran Droseddol y Llys Apêl (ac, yn eithriadol, pan nad oes apêl wedi cael ei ddwyn). Daw'r cyfeiriad hwnnw'n apêl lawn, ac nid oes angen estyniad amser na chaniatâd.

## Terfynau amser

Mynegodd sefydliadau bryderon wrthym nad yw 28 diwrnod yn ddigon hir i ymgeisydd sicrhau cyllid cyfreithiol, cynrychiolaeth neu "ail farn" ar rinweddau apêl, neu i gasglu tystiolaeth newydd, a bod ymgeiswyr digynrychiolaeth, ymgeiswyr agored i niwed neu ymgeiswyr benywaidd neu'r rhai a gafwyd yn euog o droseddau sy'n gysylltiedig â gangiau yn wynebu anawsterau penodol. Rydym wedi ein hargyhoeddi ei bod yn bosibl na fydd rhai ymgeiswyr yn gwybod y gallant wneud cais am ganiatâd y tu allan i'r cyfnod neu nad ydynt ond yn sylweddoli bod ganddynt resymau dros apelio ar ôl 28 diwrnod, a all fod yn gymharol fuan ar ôl carcharu.

**Cwestiwn Cryno 3:**

Ydych chi'n cytuno y dylai'r terfyn amser ar gyfer dwyn apêl yn erbyn euogfarn neu ddedfryd i'r Adran Droseddol y Llys Apêl gynyddu i 56 diwrnod o ddyddiad y ddedfryd?



## Gorchmynion "Colli amser"

Fel arfer, mae'r amser y mae unigolyn yn ei dreulio yn y carchar wrth aros i'w gais am apêl gael ei benderfynu yn cyfrif tuag at ei ddedfryd. Yn eithriadol, os yw'r Adran Droseddol y Llys Apêl yn credu bod cais neu apêl yn gwbl ddi-werth, gall wneud gorchymyn "colli amser", sy'n golygu nad yw rhywfaint o'r amser rhwng cyflwyno'r cais am ganiatâd i apelio a'i benderfyniad yn cyfrif fel pe bai wedi'i gyflwyno. I bob pwrpas, mae'r amser yn cael ei ychwanegu at yr amser y bydd yr unigolyn yn ei dreulio yn y carchar. Mae'r gorchmynion fel arfer am 14, 28 neu (yn anaml) 56 diwrnod. Mae gan farnwyr unigol y pŵer i wneud y gorchmynion hyn, ond nid oes yr un ohonynt wedi gwneud hynny ers mis Hydref 2007. Bydd y llys llawn bron bob amser yn gwneud gorchymyn dim ond os yw'r barnwr unigol wedi rhybuddio'r ymgeisydd yn benodol am y risg o gael gorchymyn drwy lofnodi blwch ar y ffurflen y maent yn ei hanfon atynt wrth wrthod caniatâd i apelio.

Mae gorchmynion colli amser yn un o'r unig ffyrdd sydd gan yr Adran Droseddol y Llys Apêl i atal apeliadau annheilwng rhag cymryd amser llys gwerthfawr. Fodd bynnag, rydym wedi cael tystiolaeth bod argaeledd y pŵer y mae rhai'n ei ddisgrifio fel un llym yn atal apeliadau teilwng, dilys a dadleuol. Dywedwyd wrthym fod yr "effaith atal" hon yn arbennig o gryf oherwydd, yn ymarferol, er nad yw'r llys ond yn gosod gorchmynion colli amser pan fo ymgeisydd aflwyddiannus yn adnewyddu ei gais gerbron y llys llawn, ac am gyfnod penodol, byddai cyfreithiwr yn gywir i'w rhybuddio am y posibilrwydd damcaniaethol o gael gorchymyn colli amser. Mae hyn yn bosib hyd yn oed pan nad yw wedi'i rybuddio'n benodol eto gan yr Adran Droseddol y Llys Apêl, ac y gallai'r gorchymyn fod am y cyfnod cyfan rhwng cyflwyno cais ac i hwnnw gael ei benderfynu.

Rydym yn gweld achos dros ddiddymu'r gorchmynion yn gyfan gwbl, ond rydym yn gwerthfawrogi eu bod yn caniatáu i Adran Droseddol y Llys Apêl gael rhywfaint o reolaeth dros geisiadau a'u bod bron bob amser yn cael eu defnyddio dim ond pan fydd ymgeisydd yn parhau gyda chais anobeithiol ar ôl cael rhybudd am y posibilrwydd o orchymyn pe bai'n ei adnewyddu.

**Cwestiwn Cryno 4:**

A ydych yn cytuno y dylai gorchmynion colli amser fod â therfyn uchaf o 56 diwrnod ac na ddylent fod ar gael oni bai:

1. bod caniatâd i apelio wedi cael ei wrthod gan y barnwr unigol yn gyfan gwbl heb unrhyw haeddiant,
2. rhybuddir yr ymgeisydd y bydd, pe bai'n adnewyddu ei gais, mewn perygl o golli gorchymyn amser, a
3. bod yr ymgeisydd yn adnewyddu ei gais gerbron y llys llawn a'i fod yn ei wrthod yn llwyr fel un cwbl annheilwng?

## "Rheol llithriadau" ar gyfer Adran Droseddol y Llys Apêl

Ar hyn o bryd nid oes gan Adran Droseddol y Llys Apêl unrhyw bŵer i gywiro gwallau a wnaed yn ei ddyfarniadau neu ei orchmynion. I wahanol raddau, mae gan lysoedd eraill bwerau i wneud unrhyw beth o gywiro gwallau gramadegol i ail-wrando achosion a benderfynwyd. Yn berthnasol, gall Llys y Goron amrywio neu ganslo dedfryd a roddir o fewn 56 diwrnod i'w gosod, ond rhaid i hyn gael ei wneud gan yr un barnwr a roddodd y ddedfryd yn wreiddiol.

Credwn mai anghysonder yw diffyg rheol gyfatebol ar gyfer yr Adran Droseddol y Llys Apêl. Er bod gan Adran Droseddol y Llys Apêl bŵer eithriadol i ailagor penderfyniadau, mae diffyg "rheol llithriadau" yn golygu na oes ffordd hawdd o gywiro gwallau annadleuol a wneir gan Adran Droseddol y Llys Apêl (naill ai mewn dedfryd a roddir yn ei lle neu drwy ddibynnu ar rywbeth mewn camgymeriad pan fydd yn caniatáu neu'n

diystyru apêl). Yn aml, nid yw llithriadau o'r fath yn codi pwyntiau cyfreithiol o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol, sy'n golygu nad ydynt yn debygol o gael caniatâd i apelio i'r Goruchaf Lys.

**Cwestiwn Cryno 5:**

Ydych chi'n cytuno y dylai Adran Droseddol y Llys Apêl fod â'r pŵer i gywiro llithriad neu hepgoriad damweiniol mewn dyfarniad neu orchymyn o fewn 56 diwrnod i'w gyflwyno neu ei wneud? Os felly, pwy ydych chi'n meddwl ddylai allu arfer y pŵer hwn? Er enghraifft, ai:

1. pob un o'r un barnwyr a wnaeth y dyfarniad neu'r gorchymyn;
2. y barnwr uchaf (llywyddol) a wnaeth y dyfarniad neu'r gorchymyn;
3. unrhyw un o'r barnwyr a wnaeth y dyfarniad neu'r gorchymyn; neu
4. unrhyw farnwr sy'n gallu eistedd yn Adran Droseddol y Llys Apêl?

## Tystiolaeth newydd

Fel y trafodwyd uchod, y prawf ar gyfer derbyn tystiolaeth newydd yw a yw "er budd cyfiawnder". Wrth benderfynu ar hyn, rhaid i Adran Droseddol y Llys Apêl ystyried y canlynol:

a. a yw'n ymddangos bod modd credu'r dystiolaeth,
b. a allai'r dystiolaeth ddarparu unrhyw sail dros ganiatáu'r apêl,
c. a fyddai'r dystiolaeth wedi bod yn dderbyniol yn achos Llys y Goron; a
d. bod esboniad rhesymol am fethu â derbyn y dystiolaeth yn yr achos gwreiddiol.

Rydym yn bryderus bod y pedair ystyriaeth hyn weithiau'n cael eu trin fel meini prawf gorfodol i'w bodloni er mwyn derbyn tystiolaeth newydd. Ar yr amod nad yw'r ystyriaethau'n cael eu trin fel meini prawf, credwn mai'r prawf "er budd cyfiawnder" yw'r prawf cywir.

**Cwestiwn Cryno 6:**

Ydych chi'n cytuno y dylai Adran Droseddol y Llys Apêl barhau i dderbyn tystiolaeth newydd pan fydd er budd cyfiawnder, ar sail y pedair ystyriaeth bresennol?

Rydym yn credu bod problemau pan fydd pobl sydd wedi'u cael yn euog yn dymuno dadlau nad yw eu heuogfarn yn ddiogel oherwydd ymddygiad/camymddwyn gan reithwyr.

Mae cadw trafodaethau rheithwyr yn gyfrinach yn caniatáu i reithwyr siarad yn rhydd yn ystafell y rheithgor. Yn dilyn argymhellion a wnaed gennym yn 2013, creodd Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 eithriadau i'r rheol gyffredinol bod datgelu trafodaethau rheithgor yn anghyfreithlon, gan ganiatáu ar gyfer datgelu gwybodaeth i'r heddlu neu i'r llysoedd a allai fod yn sail i apêl.

Fodd bynnag, mae cyfraith achosion sy'n rhagflaenu'r newid hwn yn golygu na all llysoedd ystyried trafodaethau oni bai fod y rheithgor wedi cefnu'n llwyr ar eu llw i roi achos ar brawf yn ôl y dystiolaeth (er enghraifft drwy daflu ceiniog) neu os cyflwynir deunydd allanol, na chafodd ei gyflwyno yn y treial, i'r trafodaethau.

### Cyfrinachedd Rheithwyr a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

O dan erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae gan bawb yr hawl i dreial teg gerbron tribiwnlys annibynnol a diduedd.

Yn achos *Gregory v UK*,[2] cydnabu Llys Hawliau Dynol Ewrop fod cyfrinachedd rheithwyr yn amddiffyniad hanfodol i ganiatáu trafodaethau agored rhwng rheithwyr. Dywedodd nad oedd y diffynnydd yn yr achos hwnnw wedi cael ei amddifadu o'r hawl i dreial teg lle gwnaed honiadau o hiliaeth ar ran rheithwyr, oherwydd bod barnwr y treial wedi ymchwilio i'r honiadau ac wedi atgoffa'r rheithgor o'u dyletswydd i roi achos ar brawf ar sail y dystiolaeth.

Yn achos *Remli v France*,[3] fodd bynnag, canfu'r Llys nad oedd barnwr y treial wedi ymchwilio i sylwadau hiliol gan reithiwr, ac nad oedd y diffynnydd yn gallu apelio yn erbyn ei euogfarn i lys uwch ar y pwynt hwn. Roedd yn honni bod hawl y diffynnydd i dreial teg wedi'i wrthod.

Nid ydym yn credu y dylai cyfrinachedd rheithwyr atal yr Adran Droseddol y Llys Apêl rhag ystyried tystiolaeth sy'n awgrymu na chafodd diffynnydd dreial teg gerbron rheithgor annibynnol a diduedd. Credwn y gellid diogelu cyfrinachedd rheithwyr yn ddigonol drwy sicrhau eu bod yn aros yn ddienw mewn unrhyw achos. Gan fod rheithwyr eisoes yn gallu gwneud datgeliadau mewn amgylchiadau cyfyngedig, nid ydym yn credu y byddai'r newid hwn yn effeithio ar barodrwydd rheithwyr i siarad yn rhydd yn ystafell y rheithgor. Credwn hefyd y dylid ychwanegu'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol at y rhestr o gyrff y gall rheithwyr wneud datgeliad cyfreithiol o gamymddwyn iddynt.

**Cwestiwn Cryno 7:**

Ydych chi'n cytuno y dylid newid y gyfraith er mwyn caniatáu i Adran Droseddol y Llys Apêl dderbyn tystiolaeth o drafodaethau'r rheithgor pan allai'r dystiolaeth ddarparu sail ar gyfer apêl, megis na chafodd unigolyn dreial teg gerbron rheithgor diduedd?

2 1998) 25 EHRR 577 (Rhif y Cais 22299/93).
3 (1996) 22 EHRR 253 (Rhif y Cais 16839/90).

## Y prawf diogelwch ar gyfer apeliadau euogfarn

Mae'r prawf ar gyfer caniatáu apêl yn erbyn euogfarn wedi newid sawl gwaith ers 1907, ond mae'r prawf presennol sy'n gofyn a yw'r euogfarn "yn anniogel" wedi bod ar waith ers 1995.

Bydd apêl unigolyn yn cael ei chaniatáu pan brofir ei fod, neu ei fod o bosibl, yn ffeithiol ddieuog– hynny yw, nad oedd wedi cyflawni'r drosedd o gwbl, na gweithred sy'n rhan hanfodol ohoni.

Fodd bynnag, mae cyfraith Cymru a Lloegr wedi hen gydnabod pwysigrwydd treial teg a chyfiawnder yn cael ei wneud yn gyfiawn, ac mae erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn sicrhau'r hawl i dreial teg. Oherwydd hyn, bydd apêl bron bob amser yn cael ei chaniatáu pan fydd Adran Droseddol y Llys Apêl yn dod i'r casgliad nad oedd treial unigolyn, yn ei gyfanrwydd (mewn geiriau eraill, gan anwybyddu gwallau gweithdrefnol mwy technegol) annheg neu wrth erlyn unigolyn a oedd yn ymwneud â cham-drin proses o'r fath yn gyfystyr ag "amarch i gyfiawnder". Un mater allweddol a nodwyd gennym yw yr awgrymwyd o bryd i'w gilydd y gellir gorbwyso'r ffaith nad oedd y cyhuddedig wedi cael treial teg gan gryfder tystiolaeth yr erlyniad.

Rydym yn deall anesmwythyd ynghylch euogfarnau unigolion sy'n amlwg yn euog yn cael eu diddymu "ar sail dechnegol", ond bydd yr opsiwn o ail dreial yn aml ar gael ac yn dangos bod treial yn annheg yn ei gyfanrwydd neu fod yr erlyniad yn amarch i gyfiawnder yn drothwyon uchel iawn i'w gorchfygu. Mae hyn yn ein darbwyllo na all euogfarnau yn yr amgylchiadau hyn fyth fod yn ddiogel ac rydym am egluro hyn.

**Cwestiwn Cryno 8:**

Ydych chi'n cytuno y dylai euogfarn sy'n "anniogel" barhau i fod yr unig sail mewn prawf wrth ystyried apeliadau yn erbyn euogfarn? Ydych chi'n cytuno y dylai deddfwriaeth gadarnhau arfer presennol Adran Droseddol y Llys Apêl bod "anniogel" yn ymestyn i sefyllfaoedd lle mae'n ystyried (1) bod treial yr apelydd, yn ei gyfanrwydd, yn annheg neu (2) bod yr euogfarn yn cynnwys cam-drin proses sy'n gyfystyr ag amarch i gyfiawnder?

## Ail dreialon

Wrth ganiatáu apêl yn erbyn euogfarn, gall yr Adran Droseddol y Llys Apêl orchymyn ail dreial os "mae'n ymddangos i'r Llys fod er budd cyfiawnder yn gofyn am hynny." Mynegodd rhai ymgyngoreion y farn, hyd yn oed pan fydd tystiolaeth newydd yn cael ei chyflwyno neu pan nodwyd gwall cyfreithiol a allai fod wedi arwain y rheithgor at ryddfarnu, fod Adran Droseddol y Llys Apêl yn aml yn canfod bod euogfarnau yn ddiogel. Lle gallai tystiolaeth newydd fod wedi arwain y rheithgor at ryddfarnu, credwn, oni bai ei bod yn amhosibl neu'n anymarferol gorchymyn ail dreial, y dylid diddymu euogfarn ac (os yw hynny er budd cyfiawnder) gorchymyn ail dreial fel y gall rheithgor wneud penderfyniad yng ngoleuni'r dystiolaeth newydd.

**Cwestiwn Cryno 9:**

Ydych chi'n cytuno, mewn apeliadau euogfarn, lle mae Adran Droseddol y Llys Apêl yn derbyn tystiolaeth newydd a allai fod wedi arwain y rheithgor at ryddfarnu, y dylai orchymyn ail dreial oni bai fod un yn amhosibl neu'n anymarferol?

## Y prawf " anghyfiawnder sylweddol"

Os yw'r sawl a gafwyd yn euog yn credu nad yw ei euogfarn yn ddiogel oherwydd newid mewn dehongliad barnwrol o'r gyfraith ar ôl ei euogfarn, ond bod angen mwy o amser arno er mwyn apelio, rhaid iddo ddangos "anghyfiawnder sylweddol". Nid yw'r ffaith bod y gyfraith wedi newid (neu fod datblygiad wedi bod yn y gyfraith) ynddo'i hun yn ddigonol.

Mae hyn yn golygu bod ymgeiswyr o'r fath yn wynebu trothwy uwch nag eraill sydd angen estyniadau amser. Mae'r rheswm yn mynd at galon ein system gyfreithiol o gynsail a defnyddio'r gyfraith (cyfraith statudol a chyfraith wedi'i phennu gan farnwyr) sydd mewn grym ar yr adeg berthnasol. Mae cysylltiad agos rhyngddi â'r egwyddor o derfynoldeb.

Ond os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu bod llysoedd wedi bod yn defnyddio neu'n dehongli'r gyfraith yn anghywir, a bod y sawl a gafwyd yn euog yn credu na fyddent yn cael eu dyfarnu'n euog dan y gyfraith newydd "gywir", mae ganddynt achos da i herio eu heuogfarn.

Daeth y tensiwn hwn i'r amlwg yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys yn 2016 yn achos *Jogee*,[4] a oedd yn mynd i'r afael ag atebolrwydd troseddol pobl pan fyddant yn helpu, yn ymuno â throsedd neu'n cytuno i gyflawni trosedd, lle mae un o'r rhai dan sylw yn cyflawni trosedd mwy difrifol ("atebolrwydd affeithiwr parasitig").



4 *R v Jogee* [2016] UKSC 8 and *Ruddock v The Queen* [2016] UKPC 7, [2017] AC 387.

### Menter ar y cyd ac achos y Goruchaf Lys - *Jogee*

Pan fydd dau neu fwy o bartïon yn cyflawni trosedd gyda'i gilydd, maent i gyd yn agored i gael eu dyfarnu'n euog o'r trosedd. Mae hyn yn cynnwys y rhai a anogodd neu a helpodd i gyflawni'r trosedd. Er enghraifft, mae tri unigolyn yn lladrata gyda'i gilydd mewn banc: mae un yn bygwth y staff gyda gwn; mae'r ail yn rhoi'r arian mewn bag; mae'r trydydd yn cadw golwg ac yn gyrru'r cerbyd i ddianc. Mae'r tri yn euog o ladrad ar sail menter ar y cyd.

O dan athrawiaeth "atebolrwydd affeithiwr parasitig", os yw un parti mewn menter ar y cyd wedi rhagweld y gallai'r parti arall gyflawni trosedd arall fel rhan o'r fenter honno ar y cyd, gellid cael y naill a'r llall yn euog o'r trosedd arall. Er enghraifft, pe bai dau unigolyn yn cytuno i ladrata gyda'i gilydd, ac yn ystod y lladrad hwnnw, mae un o'r partïon yn trywanu deiliad tŷ, gellid cael y lleidr arall yn euog pe bai wedi rhagweld y gallai hyn ddigwydd. Os oedd y byrgler a drywanodd yn bwriadu achosi niwed difrifol, yna gellid cael y lleidr arall yn euog o lofruddiaeth.

Yn achos *Jogee*, roedd y Goruchaf Lys o'r farn bod hyn yn anghywir. Er mwyn ei gael yn euog o'r trosedd mwy difrifol, roedd yn rhaid i'r parti i'r fenter ar y cyd fwriadu, nid dim ond rhagweld, y byddai'r parti arall sy'n gysylltiedig â'r fenter yn cyflawni'r trosedd. Gallai'r bwriad hwnnw fod yn amodol – er enghraifft, os oeddent yn bwriadu trywanu'r deiliad tŷ, os oedd angen. Roedd rhagweld yn rhywbeth y gallai rheithgor (ond nad oes angen iddynt) ei ddefnyddio i ddod o hyd i'r bwriad (amodol) angenrheidiol.

Mae dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *Jogee* yn awgrymu, mewn theori, ei bod yn "anghywir" bod unrhyw un wedi'i gael yn euog o gyflawni trosedd mwy difrifol na'r hyn a gytunwyd, yn seiliedig ar ragweld yn unig. Y ddau anhawster uniongyrchol yw (1) y gallai hyn arwain at nifer o apeliadau na ellir eu rheoli, yn enwedig gan fod erlyniadau llofruddiaeth menter ar y cyd fel arfer yn cynnwys nifer o ddiffynyddion, a (2) mai ychydig o erlyniadau a oedd yn cael eu dadlau ar sail rhagweld yn unig – er y gallai'r barnwr fod wedi cynnwys rhagweld yn y cyfarwyddiadau i'r rheithgor. Felly, anaml y bydd yn glir a yw'r rheithgor wedi'i gael yn euog ar sail rhagweld, neu a oedd mewn gwirionedd yn fodlon bod yr unigolyn wedi bwriadu i'r dioddefwr gael ei anafu'n ddifrifol neu'n angheuol.

Mae'r prawf "anghyfiawnder sylweddol" yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl a geir yn euog o dan yr "hen" gyfraith mewn achosion tebyg i *Jogee* brofi bod eu heuogfarn dan yr hen gyfraith wedi peri iddynt ddioddef "anghyfiawnder sylweddol" er mwyn i'w hapêl gael ei chlywed.

Roedd y Goruchaf Lys yn achos *Jogee* yn cydnabod y prawf "anghyfiawnder sylweddol" yn benodol, ond mae llawer wedi dadlau bod Adran Droseddol y Llys Apêl yn ei ddefnyddio'n rhy llym, yn enwedig pan all nid yn unig orchymyn ail dreial mewn achosion o'r fath ond hefyd rodder collfarn o lofruddiaeth ag un am ddynladdiad (nad yw'n cynnwys dedfryd oes orfodol). Dim ond dwy apêl tebyg i *Jogee* sydd wedi cael eu caniatáu ers 2016.

Mae'r prawf hefyd yn berthnasol mewn sefyllfaoedd eraill. Er enghraifft, nid oedd rhai ceiswyr lloches a gafodd eu herlyn am feddu ar ddogfennau ffug yn cael defnyddio eu statws fel amddiffyniad os oeddent wedi teithio drwy wlad "ddiogel" cyn cyrraedd y DU. Mae'r gyfraith bellach yn cydnabod nad yw hyn yn atal unigolyn rhag defnyddio'r

amddiffyniad. Yn *Ordu*,[5] penderfynodd Adran Droseddol y Llys Apêl nad oedd yn ddigon i ddangos na fyddai'r unigolyn wedi cael ei ddyfarnu'n euog pe bai'r gyfraith wedi'i chymhwyso'n gywir; roedd yn rhaid iddynt ddangos bod yr euogfarn yn achosi rhywfaint o anghyfiawnder parhaus iddynt.

Gwelsom fod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch ystyr "anghyfiawnder sylweddol", ac a yw'n cael ei asesu drwy edrych yn ôl at ddyddiad yr euogfarn, gan ofyn a oedd yn anghyfiawnder sylweddol y cafwyd y diffynnydd yn euog ohono, neu drwy edrych ymlaen o'r cais, a gofyn a fyddai anghyfiawnder sylweddol pe na bai'r apêl yn cael ei chlywed neu ei chaniatáu.

Mae rhai ymgyngoreion wedi dadlau bod athrawiaeth menter ar y cyd yn cael effaith anghymesur ar grwpiau lleiafrifol ac yn enwedig dynion du ifanc, ac felly gallai'r gofyniad i ddangos "anghyfiawnder sylweddol" effeithio'n benodol ar y grwpiau hyn.

Credwn y gellir dadlau'n gryf "anghyfiawnder sylweddol" wedi dod yn rhwystr gwirioneddol i gywiro camweinyddiad cyfiawnder, ac y dylid diwygio'r gyfraith i ganiatáu i unigolyn apelio yn erbyn ei euogfarn drwy ddadlau, pe bai'r gyfraith "wedi'i chywiro" wedi cael ei rhoi ar waith yn eu hachos nhw, efallai na fyddent wedi cael eu dyfarnu'n euog o'r drosedd (neu drosedd debyg).

**Cwestiwn Cryno 10:**

Ydych chi'n credu bod "anghyfiawnder sylweddol" yn llesteirio cywiro camweinyddiad cyfiawnder? Pa brawf y dylid ei ddefnyddio pan fydd unigolyn yn ceisio apelio yn erbyn ei euogfarn ar y sail bod datblygiad wedi digwydd yn y gyfraith?

## Apeliadau yn erbyn dedfryd: newid mewn amgylchiadau a charchar er mwyn gwarchod y cyhoedd (IPP)

Mae apeliadau dedfrydu fel arfer yn adolygu proses a phenderfyniad y barnwr dedfrydu wrth ddod i ddedfryd, gan roi llawer o barch at eu casgliadau ar ffeithiau, yn ogystal â'u pwyso a'u mesur. Fel rhan o hynny, maent yn canolbwyntio ar y sefyllfa ar ddyddiad y ddedfryd ac nid ar y sefyllfa (sydd o bosibl wedi newid) pan glywir yr apêl. Mae'r profion y mae Adran Droseddol y Llys Apêl yn eu defnyddio, yn benodol a yw dedfryd yn "amlwg yn ormodol", wedi cael eu beirniadu, yn rhannol am nad ydynt wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, ond nid ydym yn credu bod achos digon cryf dros eu newid.

**Cwestiwn Cryno 11:**

Ydych chi'n cytuno na ddylid newid y prawf/profion ar gyfer caniatáu apeliadau dedfryd yr Adran Droseddol y Llys Apêl?

Roeddem wedi nodi tensiwn yn ymarfer yr Adran Droseddol y Llys Apêl, er nad yw'n ystyried newidiadau mewn amgylchiadau rhwng dedfryd a'i hapêl i raddau helaeth, gall wneud hynny pan ddarganfyddir beichiogrwydd neu fater iechyd difrifol ar ôl dedfrydu, neu wrth ddiddymu dedfryd ac ail-ddedfrydu troseddwr.

Ar wahân i hynny, cododd nifer o ymgyngoreion fater y ddedfryd o garchar er mwyn diogelu'r cyhoedd.

5 *R v Ordu* [2017] EWCA Crim 4, [2017] 1 Cr App R 21.

### Dedfrydau o garchar er mwyn diogelu'r cyhoedd (IPP)

Cyflwynwyd y Dedfrydau hyn yn 2005 ac fe'u diddymwyd yn 2012. Fe'u cyflwynwyd i ddelio â throseddwyr peryglus, gan gynnwys rhai nad oedd eu troseddau'n gymwys i gael dedfryd oes ddewisol - cafodd 8,711 eu rhoi. Roedd y Dedfrydau hyn, fel dedfrydau oes, yn "amhenodol", a oedd yn golygu eu bod yn caniatáu i droseddwr gael ei gadw yn y carchar am ei oes gyfan, a'u bod yn dod gyda chyfnod sylfaenol yr oedd yn rhaid iddynt ei dreulio yn y carchar cyn y gallent wneud cais am barôl. I ddechrau, roedd yn rhaid i lysoedd osod y Dedfrydau mewn rhai amgylchiadau os na roddwyd dedfryd oes, ac roedd rhagdybiaeth bod troseddwr yn beryglus pe bai wedi'i gael yn euog o rai troseddau treisgar neu rywiol yn y gorffennol. Cafodd y rheolau hyn eu llacio yn 2008, gan roi mwy o ddisgresiwn i farnwyr beidio â gosod dedfryd o garchar er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Yn 2012, dyfarnodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod y rhagdybiaeth o berygl, a'r cyfyngiadau ar ddisgresiwn barnwrol, ynghyd â chyfleoedd cyfyngedig i garcharorion ymgymryd â gwaith adsefydlu, yn golygu bod gweithredu'r drefn o osod dedfryd o garchar er mwyn diogelu'r cyhoedd yn gyfystyr â chael eu cadw'n gaeth yn fympwyol, yn groes i erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Diddymwyd y Ddedfryd yn 2012. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn effeithio ar y rhai a oedd eisoes wedi cael eu dedfrydu i garchar er mwyn diogelu'r cyhoedd. Ers hynny, mae deddfwriaeth wedi newid y rheolau sy'n llywodraethu amodau ôl-ryddhau i alluogi carcharorion y Ddedfryd sydd wedi cael eu rhyddhau i gael terfynu eu trwydded yn haws. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth sy'n caniatáu i weinidogion lacio'r prawf parôl sy'n berthnasol cyn y gellir rhyddhau carcharor y Ddedfryd wedi cael ei defnyddio.

O ran y prosiect hwn, y broblem yw, er bod apeliadau'n cael eu dwyn ar y sail na ddylai'r Ddedfryd fod wedi cael ei gorfodi o dan y gyfraith fel yr oedd, yn amlach na pheidio, y gŵyn yw bod y gyfraith sy'n rheoli'r Ddedfryd ei hun wedi arwain at anghyfiawnder. Mae tystiolaeth bod carcharorion y Ddedfryd yn fwy tebygol o hunan-niweidio, a bod modd dod â throseddwyr y Ddedfryd sydd wedi'u rhyddhau yn ôl i'r carchar am dorri mân reolau eu trwydded. Ar y llaw arall, canfuwyd bod troseddwyr y Ddedfryd yn y treial yn "beryglus" ac, os oedd eu dedfrydau'n cael eu diddymu'n gyfan gwbl, gellid rhyddhau pobl a allai fod yn beryglus i'r gymuned ar unwaith; gallai ail-ddedfrydu pob troseddwr o'r fath hefyd orlethu system y llysoedd. Felly, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn ynghylch a ddylai'r rhai a ddedfrydir i Garchar er mwyn Diogelu'r Cyhoedd gael hawl unigryw i apelio neu i gael eu hail-ddedfrydu, ac a ddylid cael prawf pwrpasol ar gyfer dileu'r ddedfryd honno.

**Cwestiwn Cryno 12:**

